HM Government

Mynediad at swyddi etholedig ar gyfer pobl anabl

Ymgynghoriad

Chwefror 2011

HM Government

Mynediad at swyddi etholedig ar gyfer pobl anabl

Ymgynghoriad

Chwefror 2011

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog 5

Pennod 1: Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn 7

Pennod 2: Cefndir a chyd-destun 10

Pennod 3: Pynciau allweddol 11

Pennod 4: Cynigion i'w hystyried 15

Pennod 5: Cwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch y cynigion 17

Pennod 6: Ymrwymiadau cyfreithiol cyfredol pleidiau gwleidyddol tuag at eu hymgeiswyr anabl arfaethedig 18

Cyfeiriadau 21

Atodiad A: Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb y Strategaeth Mynediad at Swyddi Etholedig 22

Atodiad B: Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad 29

Rhagair y Gweinidog

Mae Llywodraeth y Glymblaid wedi ymrwymo i gydraddoldeb ar gyfer pobl anabl a rhan bwysig o adfer ymddiriedaeth yw gwneud ein gweriniaeth yn un agored a sicrhau fod ein system wleidyddol yn gwella sut mae'n adlewyrchu'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Ar hyn o bryd tangynrychiolir pobl anabl mewn bywyd cyhoeddus, er gwaethaf y ffaith fod dros 10 miliwn o bobl anabl yn y DU.

Dyma pam mae Llywodraeth y Glymblaid wedi gwneud ymrwymiad i gyflwyno "cynhorthwy ychwanegol" ar gyfer pobl anabl "sy'n dymuno dyfod yn Aelodau Seneddol, cynghorwyr, neu swyddogion etholedig eraill". Mae'r ymrwymiad hwn yn dilyn yr argymhellion a wnaethpwyd gan Gynhadledd draws-blaid y Llefarydd yn Ionawr 2010 ynghylch sut i wella cynrychiolaeth menywod, pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig yn Nhŷ'r Cyffredin.

Wrth galon ein hymdrechion i wneud cynnydd yn yr ymrwymiad pwysig hwn, byddwn yn sicrhau fod syniadau a phrofiadau pobl anabl yn cael eu hystyried yn ofalus wrth ddatblygu a llunio polisïau newydd y Llywodraeth yn y maes hwn. Mae nifer o bwyntiau allweddol, a amlygwyd o fewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Gynhadledd y Llefarydd, yn dangos y pwysigrwydd o sefydlu strategaeth newydd. Amlygodd Gynhadledd y Llefarydd:

- Bod anghenion, diddordebau a phryderon yn bodoli, sy'n deillio o brofiad pobl anabl, nad ydynt yn derbyn sylw haeddiannol mewn amgylchfyd gwleidyddol ble nad yw'r mwyafrif llethol o bobl yn anabl.[1]
- Bod gan Aelodau Seneddol anabl rôl bwysig i'w chwarae wrth gyfoethogi a rhoi gwybodaeth i ddadleuon gwleidyddol, gan helpu, drwy hyn, i sicrhau fod eu profiadau'n cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y rheiny sy'n llunio polisïau.[2]
- Mae'r nifer o Aelodau Seneddol sydd wedi datgan eu bod yn anabl yn isel dros ben o'i gymharu â'r gyfran o bobl anabl yn y boblogaeth gyfan. Er mwyn cynrychioli'r boblogaeth yn gywir, gallem ddisgwyl i 65 o Aelodau Seneddol fod yn anabl.[3]
- Gall diffyg nifer allweddol o Aelodau Seneddol sydd wedi datgan eu bod yn anabl atgyfnerthu'r canfyddiad fod pobl anabl yn dderbynyddion goddefol gwasanaethau cyhoeddus a pholisi cyhoeddus.[4]
- Mae pobl anabl yn ddrwgdybus o'r Senedd mewn perthynas â'i allu i fynd i'r afael yn wirioneddol â phynciau anabledd.[5]

Nid rhoi mantais wleidyddol neu fantais o fath arall i ymgeiswyr anabl arfaethedig yw pwrpas y strategaeth hon; yn hytrach, ei nod yw cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag gwneud cais am swyddi cyhoeddus. Bydd dymchwel rhwystrau a rhoi cyfle i ddinasyddion ddylanwadu ar a llunio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd yn gwneud ein gweriniaeth yn gryfach fyth. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl yn y modd mwyaf effeithiol, rhaid i ni, yn gyntaf, sefydlu pa gynhorthwy ymarferol maent ei angen er mwyn goresgyn y rhwystrau gwahanol sy'n eu hatal rhag cyfranogi'n llawn mewn bywyd gwleidyddol. Cyfle yw'r ymgynghoriad hwn i ni glywed yn uniongyrchol, gan bobl anabl eu hunain ac eraill, beth fyddai'r cynhorthwy mwyaf addas o ran dymchwel y rhwystrau i lwyddiant.

Lynne Featherstone
Gweinidog dros Gydraddoldebau

Maria Miller
Gweinidog dros Bobl Anabl

Mark Harper
Gweinidog dros Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol

Pennod 1: Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

1.1 Hoffem glywed eich barn ynghylch ein cynigion ar gyfer darparu cynhorthwy ychwanegol ar gyfer pobl anabl sy'n dymuno gwneud cais am swyddi etholedig fel Aelodau Seneddol, cynghorwyr neu swyddogion etholedig eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn, yn ogystal, yn ystyried dulliau o hyrwyddo cyfleoedd er mwyn i bobl anabl wireddu eu potensial i ddyfod yn Aelodau Seneddol.

1.2 Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i:

- bobl anabl;
- pleidiau gwleidyddol;
- awdurdodau'r tŷ ;
- sefydliadau anabledd;
- sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau eraill a dangynrychiolir;
- awdurdodau lleol.

Croesawir sylwadau'n ogystal oddi wrth gyfranogion eraill â diddordeb.

Rhychwant tiriogaethol

1.3 Bydd y cynigion yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar gyfer y rhestr ganlynol o etholiadau: etholiadau San Steffan y DU, etholiadau lleol yn Lloegr, etholiadau Awdurdod Llundain Fawr (GLA), etholiadau Maerol yn Lloegr a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Parheir i gynnal trafodaethau gyda gweinyddiaethau datganoledig er mwyn darparu fforwm effeithiol ar gyfer dyblygu arfer da.

Asesiadau effaith

1.4 Rydym wedi cynhyrchu asesiad o'r effaith y gall ein cynigion eu cael ar gydraddoldeb oed, anabledd, rhyw, ailgyfeiriad rhyw, hil, crefydd neu gred, a thueddfryd rhywiol. Gwelir hwn yn Atodiad A. Byddwn yn parhau i drafod effaith debygol ein cynigion gyda chyfranogion dros gyfnod yr ymgynghoriad hwn.

Hyd yr ymgynghoriad hwn

1.5 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 16 Chwefror 2011 ac yn dirwyn i ben ar 11 Mai 2011. Mae'n bosibl na chaiff unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau eu hystyried na'u hadlewyrchu yn ein dadansoddiad.

Sut i ymateb

1.6 Darparir crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad B. Byddem yn ddiolchgar pe medrech ddefnyddio'r fersiwn electronig o'r ffurflen ymateb er mwyn cyflwyno eich sylwadau; mae hwn ar gael i'w lawrlwytho o wefan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn www.equalities.gov.uk. Bydd fersiwn hawdd ei ddarllen o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn ogystal.

1.7 Dylid anfon ymatebion drwy e-bost i:

accesstoelectedoffice@geo.gsi.gov.uk

neu drwy'r post i:

Access to Elected Office for Disabled People: Consultation Responses,
Government Equalities Office,
Zone G9,
9th Floor,
Eland House,
Bressenden Place,
London SW1E 5DU.

1.8 Dylech sicrhau fod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn **11 Mai 2011**.

1.9 Dylech ddweud wrthym p'un ai ydych yn ymateb fel unigolyn neu b'un ai ydych yn cynrychioli sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dywedwch wrthym bwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, ble bo modd, sut gofynnwyd am farn yr aelodau.

Cwestiynau ynghylch y ddogfen hon

1.10 Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y ddogfen hon at:

Enw: Suzi Daley a/neu Jisha Salim

Teleffon: 0303 444 3954/
0303 444 4036

E-bost: suzi.daley@geo.gsi.gov.uk
jisha.salim@geo.gsi.gov.uk

Byddwn yn ystyried unrhyw gais rhesymol am fformatau hygyrch amgen o'r ddogfen hon. Dylech anfon eich cais i:

E-bost: accesstoelectedoffice@geo.gsi.gov.uk
(Rhowch 'Cais am Fformat hygyrch' yn y llinell destun).

Post: Access to Elected Office Consultation – Accessible Formats,
Government Equalities Office,
Zone J10,
9th Floor,
Eland House,
Bressenden Place,
London SW1E 5DU.

Teleffon: 0303 444 1204

Ar ôl yr ymgynghoriad

1.11 Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn ar wefan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth o fewn tri mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Rhyddid gwybodaeth

1.12 Gall fod angen i ni drosglwyddo unrhyw wybodaeth a anfonwch atom i gydweithwyr o fewn Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth ac i adrannau eraill o'r llywodraeth. Gall fod angen i ni gyhoeddi eich ymateb yn ogystal.

1.13 Gall yr holl wybodaeth a ddarparwch yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os yw rhywun yn gofyn amdani o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf FOI) neu Ddeddf Gwarchod Gwybodaeth1998. Os ydych yn dymuno i ni drin yr wybodaeth a ddarparwch fel gwybodaeth gyfrinachol, dylech sylweddoli fod gan y Ddeddf FOI God Arfer statudol sy'n rhaid i ni gydymffurfio ag ef ac sy'n gosod allan ein rhwymedigaethau ynghylch cyfrinachedd. Oherwydd hyn byddai'n help pe baech yn dweud wrthym pam rydych yn dymuno i'r wybodaeth gael ei chadw'n gyfrinachol. Yna, os yw rhywun yn gofyn i ni ei datgelu, byddwn yn gallu cymryd eich rhesymau dros gyfrinachedd i ystyriaeth, ond ni allwn sicrhau'n llwyr y gellir ei chadw'n gyfrinachol ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ar e-bost ynddo'i hun yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n rhwymo Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth.

Cod Arfer ar Ymgynghori

1.14 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â'r Cod Arfer ar Ymgynghori[6] a gynhyrchir gan yr Adran dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

Pennod 2: Cefndir a chyd-destun

2.1 Cynhwyswyd ymrwymiad penodol yn y Cytundeb Clymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i gyflwyno "cynhorthwy ychwanegol" ar gyfer pobl anabl "sydd eisiau dyfod yn Aelodau Seneddol, cynghorwyr neu swyddogion etholedig eraill."

2.2 Bwriad y fenter hon yw canfod a mynd i'r afael â rhwystrau a wynebir gan bobl anabl sydd eisiau gyrfa wleidyddol. Y nod cyffredinol yw gwrthdroi tangynrychiolaeth pobl anabl mewn bywyd gwleidyddol lleol a chenedlaethol sy'n cael effaith wirioneddol ac andwyol ar ansawdd y dull o ddod i benderfyniadau a ddefnyddir gan y cyrff etholedig hynny. Tra nad oes unrhyw ystadegau'n bodoli ynghylch y niferoedd o Aelodau Seneddol anabl, gwyddom fod y nifer o Aelodau Seneddol sydd wedi datgan eu bod yn anabl yn isel dros ben o'i gymharu â'r gyfran o'r boblogaeth gyfan (er mwyn bod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gallem ddisgwyl o leiaf 65 o Aelodau Seneddol anabl).

2.3 Dilynodd yr ymrwymiad hwn o fewn cytundeb y Glymblaid y canfyddiadau o Gynhadledd draws-blaid y Llefarydd yn 2009 a edrychodd ar gynrychiolaeth Seneddol a sut i gynyddu amrywiaeth trwy fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau a dangynrychiolir (yn arbennig menywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl). Yn ogystal â phwysleisio'r angen i bleidiau gwleidyddol fod yn rhagweithiol wrth annog datblygiad unigolion talentog o grwpiau a dangynrychiolir, dylid nodi fod Cynhadledd y Llefarydd wedi argymell y dylid sefydlu "Cronfa Amrywiaeth Democratiaeth" er mwyn cefnogi datblygiad unigolion o'r fath gydag elfen wedi'i diogelu o fewn y Gronfa ar gyfer unigolion anabl.

2.4 Yn ystod Medi/Hydref 2010, cynhaliodd y Llywodraeth ymarfer cysylltu anffurfiol gyda phleidiau gwleidyddol, sefydliadau anabledd a sefydliadau gyda diddordeb mwy cyffredinol mewn pynciau anabledd. Ymysg y sefydliadau y buom yn cysylltu â nhw roedd:

- yr holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ym Mhalas San Steffan;
- sefydliadau anabledd, gan gynnwys RADAR, Scope, RNIB, RNID ac ati;
- sefydliadau gyda ffocws ar gydraddoldeb, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

2.5 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer cynyddu cynhorthwy i ymgeiswyr arfaethedig. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno darpariaethau ehangach ar gyfer gweithredu positif y gellid annog pleidiau gwleidyddol i'w defnyddio er mwyn cynyddu amrywiaeth ymysg eu hymgeiswyr.

2.6 Wrth lunio atebion polisi, byddwn yn cydnabod amrywiaeth profiad o fewn y boblogaeth anabl, oherwydd bydd rhwystrau sy'n anablu'n wahanol iawn ac yn cael effaith wahanol ar brofiad personol unigolyn.

Pennod 3: Pynciau allweddol

3.1 Mae mynd i'r afael â'r rhwystrau perthnasol a wynebir gan bobl anabl sy'n gwneud cais am swyddi etholedig yn ganolog i effeithiolrwydd y polisi hwn. Trwy gydol ein hymarfer cysylltu anffurfiol yn gynharach eleni ac o ganfyddiadau Cynhadledd y Llefarydd yn Ionawr 2010, canfuwyd y rhwystrau allweddol canlynol: agweddau, cyfyngiadau ariannol a hygyrchedd.

Agweddau

3.2 Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall agweddau negyddol ar ran y cyhoedd gael effaith fawr ar ymgeiswyr gwleidyddol anabl arfaethedig; er enghraifft, mewn perthynas â'r rhagolygon o gael eu hethol, pryderon ynghylch adnoddau ychwanegol a allant fod yn ofynnol, ac amheuon yr etholwyr ynghylch cael eu cynrychioli gan ymgeisydd anabl.

3.3 Mae rhwystrau o ran agwedd mewn perthynas â chymwysterau academaidd pobl anabl a hunan hyder/ hunan-barch yn bodoli'n ogystal. Dywedodd sefydliad Leonard Cheshire o fewn eu tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd fod pobl anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, dwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, ac yn llai tebygol o gryn dipyn o symud ymlaen i addysg bellach ac uwch.[7] Nodwyd yr angen i ddarparu maes chwarae gwastad ar gyfer ymgeiswyr anabl arfaethedig, trwy gyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad, gan gynnwys cyngor ynghylch technegau mewn cyfweliad.

3.4 Mae angen ystyried dulliau o gynyddu hyder ymysg ymgeiswyr anabl arfaethedig a chael gwared yn llwyr ar y canfyddiad fod cymwysterau academaidd a phrofiad gwaith bob amser yn angenrheidiol ar gyfer swyddi etholedig. Yn arbennig, bydd cyflawni'r newid hwn o ran agwedd o fewn pleidiau gwleidyddol angen eu hymrwymiad er mwyn sicrhau nad yw prosesau o ddethol ymgeiswyr yn cael eu gogwyddo gan ganfyddiadau o'r fath.

3.5 Ceir tystiolaeth, yn ogystal, sy'n awgrymu y gall ymgeiswyr neu Aelodau Seneddol deimlo'n bryderus ynghylch datgan eu bod yn anabl. Amlygodd RADAR hyn o fewn eu tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd a nodi, hefyd, fod hyn yn dal i fod yn bwnc pwysig o fewn y gweithle, lle gall unigolion ofni y bydd datgan eu bod yn anabl ynddo'i hun yn arwain at gael eu gwrthod, neu gallant bryderu ynghylch canlyniadau posibl peidio â datgan eu bod yn anabl.[8]

Cyfyngiadau ariannol

3.6 Gall y costau arferol sy'n gysylltiedig ag ymgeisio am swydd wleidyddol fod yn uchel dros ben. Gall ymgeiswyr anabl fynd i gostau pellach o fod yn ymgeisydd sy'n gysylltiedig â'u hanabledd ac sy'n rhaid iddynt dalu amdanynt eu hunain. Er enghraifft, gall fod yn rhaid i ymgeisydd byddar dalu costau Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain neu gall fod angen i ymgeisydd gydag anabledd symud ddefnyddio mwy o dacsis nag ymgeisydd nad yw'n anabl[9]. Amlygodd Cynhadledd y Llefarwydd y dystiolaeth ysgubol fod

diffyg arian ar y cyd â'r angen i wario mwy'n golygu fod cyllid yn rhwystr mwy fyth i swydd etholedig ar gyfer pobl anabl.[10]

3.7 Ar ben y costau pellach hyn a amlinellir uchod, mae ymgeiswyr anabl hefyd yn gorfod talu'r costau safonol a wynebir gan bob ymgeisydd arfaethedig. Ceir y costau o sefydlu a chynnal ymgeisiaeth cyn cychwyn ffurfiol yr ymgyrch etholiadol. Gall y cyfnod hwn bara am nifer o flynyddoedd a gall y costau i'r ymgeisydd, mewn termau ariannol a phersonol fel ei gilydd, fod yn rhai sylweddol[11]. Mae costau hefyd sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol ei hun. Bydd angen i ymgeiswyr annibynnol ganfod yr adnoddau i gwrdd â'r holl gostau hyn.

3.8 Os yw ymgeisydd yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol, gall fod yn rhaid talu costau'n ogystal trwy gydol y broses o ddethol. Mae prosesau dethol yn amrywio o un blaid i'r llall felly nid oes modd o ddarparu amcangyfrif o'r costau perthnasol. Os detholir ymgeisydd, ceir y costau pellach o ymgyrchu mewn isetholiad neu etholiad cyffredinol am gefnogaeth yr etholaeth ehangach.

Hygyrchedd

3.9 Bu gwella hygyrchedd ar gyfer ymgeiswyr anabl yn nodwedd allweddol o'r dystiolaeth a gasglwyd. Bydd pynciau hygyrchedd yn amrywio o un person i'r llall a byddant yn dibynnu ar eu hanalluogrwydd. Fel y cyfeiriwyd ato uchod (yn 3.6) mae trefniadau teithio'n bwnc allweddol ar gyfer ymgeiswyr gydag anableddau symud a gallant fod yn rhwystr drud ac anodd ei oresgyn wrth redeg ymgyrch etholiadol. Mae pynciau eraill a amlygwyd yn cynnwys darparu deunyddiau mewn fformat addas, a sicrhau fod gan bobl anabl ddigon o gynhorthwy i'w galluogi i chware rhan gyflawn mewn cyfweliadau/cyfarfodydd. Dylid nodi y gall rhwystrau yng nghyswllt hygyrchedd fod yn fwy difrifol o lawer ar gyfer ymgeiswyr anabl annibynnol, nad oes ganddynt unrhyw seilwaith plaid yn gefn iddynt.

3.10 Nodwyd y tri maes allweddol canlynol ble gallai cynhorthwy ychwanegol wneud y gwahaniaeth mwyaf:

- Newid Agweddau (ymysg pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd).
- Darparu Hyfforddiant, Datblygiad a Chynhorthwy.
- Gwella Hygyrchedd (gan gynnwys cynhorthwy ariannol).

Newid agweddau

3.11 Gall codi ymwybyddiaeth, trwy hyrwyddo llwyddiant a chanfod astudiaethau achos da (yn ôl barn y person anabl eu hunain) gynnig dull o greu amgylchfyd lle gall ymgeiswyr anabl deimlo'n fwy hyderus ynghylch gwneud cais am swydd. Byddai codi ymwybyddiaeth, yn ogystal, yn helpu i newid canfyddiadau o fewn pleidiau gwleidyddol ac ymysg etholwyr mewn perthynas â galluoedd pobl anabl.

3.12 Gallai rôl fodoli ar gyfer Aelodau Seneddol neu gynghorwyr anabl cyfredol i weithredu fel llysgenhadon, o fewn a thu allan i'w pleidiau gwleidyddol ar gyfer ymgeiswyr anabl arfaethedig (gan gynnwys ymgeiswyr annibynnol). Yn ogystal â chodi proffil anabledd yn fwy cyffredinol, gallent weithredu fel modelau rôl ar gyfer ymgeiswyr arfaethedig a darparu cyngor ar gyfer pleidiau gwleidyddol wrth ganfod a chefnogi ymgeiswyr.

Darparu hyfforddiant, datblygiad a chynhorthwy

3.13 Gellid targedu mesurau o fewn y maes hwn ar ddarparu'r cyfleoedd i ymgeiswyr anabl ddatblygu sgiliau a phrofiad er mwyn ymgeisio am swydd etholedig. Er enghraifft, sefydlu rhwydweithiau da ble gellir rhoi systemau hyfforddi, mentora neu gymorth bydi ar waith, gan ddarparu cynhorthwy i ymgeiswyr wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn. Dylai fod gan Aelodau Seneddol neu gynghorwyr nad ydynt yn anabl ran i'w chwarae'n ogystal yn y cynlluniau, trwy weithio'n agos gyda, a chynorthwyo, ymgeiswyr anabl yn eu pleidiau

3.14 Gallai pleidiau gwleidyddol a sefydliadau anabledd uno er mwyn datblygu rhaglenni hyfforddi sy'n mynd i'r afael â'r anfanteision a wynebir gan ymgeiswyr anabl. Gallai hyfforddiant un pwrpas mewn sgiliau cyfathrebu, er enghraifft, wneud cryn wahaniaeth i ymgeiswyr arfaethedig sy'n wynebu cyfweliad dethol neu waith hyrwyddo yng nghyswllt eu hymgyrch. Hefyd, gall cymryd rhan mewn hyfforddiant a chynlluniau o'r fath wella profiad ymgeisydd yng nghyswllt gwaith, a thrwy hynny gynyddu'r tebygrwydd o gael eu hethol.

Gwella hygyrchedd (gan gynnwys cynhorthwy ariannol)

3.15 Fel y crybwyllwyd uchod, bydd gofynion hygyrchedd yn amrywio o un person i'r llall. Adroddodd Cynhadledd y Llefarydd fod y gwariant ychwanegol yr eir iddo gan ymgeiswyr anabl wrth ymgeisio am swydd etholedig, a'r tebygrwydd uwch y bydd gan ymgeiswyr anabl incwm is, yn golygu fod rhwystrau ariannol yn uwch nag ar gyfer grwpiau eraill a dangynrychiolir.

3.16 Argymhellodd Cynhadledd y Llefarydd y dylid cyflwyno cronfa un pwrpas, y "Gronfa Amrywiaeth Democratiaeth" fel cymorth i grwpiau a dangynrychiolir gydag elfen wedi'i diogelu ar gyfer ymgeiswyr anabl. Wrth sefydlu'r meini prawf ar gyfer cronfa o'r fath byddai angen ystyried rhwymedigaethau gorfodol cyfredol. Awgrymodd un pwnc a godwyd yn ystod ein hymarfer cysylltu anffurfiol bod rhywfaint o ddryswch ynghylch y rhwymedigaethau a phwy oedd yn gyfrifol.

3.17 Awgrymodd tystiolaeth yn ogystal bod gwahaniaeth rhwng strategaethau cenedlaethol lefel uchel a threfniadau ar lefel leol. Mae hyn yn cyflwyno dadl gref dros roi mwy o gyhoeddusrwydd i bolisïau cenedlaethol, gan bleidiau gwleidyddol a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol o ganlyniad i'w cysylltau ar lefel genedlaethol ag ymgeiswyr annibynnol, a bod angen proses gwerthuso er mwyn mesur sut gweithredir polisïau ar y lefelau gwahanol.

3.18 Byddai angen paramedrau clir wrth sefydlu cronfa un pwrpas er mwyn helpu ymgeiswyr anabl. Er enghraifft, ni chawsai'r gronfa mo'i llunio er mwyn rhychwantu'r costau hynny a gwmpasir eisoes gan fudd-daliadau cyfredol eraill neu'r newidiadau rhesymol hynny a ddylai gael eu darparu gan y sefydliad/blaid wleidyddol. Ni fyddai, ychwaith, yn rhychwantu'r costau safonol y disgwylid i ymgeisydd eu talu o'i adnoddau ei hun.

3.19 Mae'r bennod ganlynol yn rhoi manylion ynghylch y dewisiadau amrywiol rydym wedi'u nodi o dan y penawdau bras hyn er mwyn lleihau'r rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr anabl arfaethedig.

Pennod 4: Cynigion i'w hystyried

4.1 Mae'r cynigion canlynol yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a nodir ym Mhennod 3, ac maent yn ddulliau awgrymedig o gyflawni'r tri newid allweddol a allai ddarparu cynhorthwy i alluogi mwy o bobl anabl ennill swyddi etholedig. Byddai angen blaenoriaethu'r cynigion sy'n dilyn er mwyn ein helpu i asesu pa gynigion neu gyfuniad o gynigion a fyddai'n cael yr effaith fwyaf. Yn dilyn canlyniad yr Arolwg Gwariant, gallwn gadarnhau y medrai £1 filiwn fod ar gael yn flynyddol dros y cyfnod gwario 2011/12 i 2013/14.

Newid agweddau (ymysg pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd)

Cynnig 1

Dylai'r Llywodraeth weithio'n agosach â phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a sefydliadau anabledd er mwyn datblygu dulliau wedi'u ffocysu o godi ymwybyddiaeth.

4.2 Gallai hyrwyddo hanesion o lwyddiant ac astudiaethau achos (sy'n ffocysu ar bobl anabl sydd wedi ennill swyddi etholedig) greu amgylchfyd mwy agored lle mae pobl anabl yn teimlo'n fwy hyderus er mwyn gwneud cais am swyddi gwleidyddol a newid canfyddiadau ynghylch galluoedd pobl anabl. Rhagwelwn y cawsai gwaith rheoli ymgyrchoedd un pwrpas a gweithgarwch estyn allan ei arwain gan sefydliadau anabledd a/neu bleidiau gwleidyddol, gyda rhywfaint o weithgarwch codi proffil ategol ar gyfer Llywodraeth ganolog.

Cynnig 2

Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a sefydliadau anabledd er mwyn datblygu rhaglen llysgenhadon traws-blaid.

4.3 Byddai'r rhaglen hon yn cynnwys Aelodau Seneddol, cynghorwyr anabl (gan gynnwys rhai annibynnol) yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer ymgeiswyr a swyddogion etholedig anabl. Byddent yn helpu i ganfod unigolion talentog o fewn pleidiau gwleidyddol, y gymuned a sefydliadau ar lawr gwlad.

Darparu hyfforddiant, datblygiad a chynhorthwy

Cynnig 3

Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u hanelu at gynorthwyo pobl anabl ar hyd y llwybr i gyfranogaeth wleidyddol.

4.4 Cawsai hyn ei wneud mewn partneriaeth â phleidiau gwleidyddol a sefydliadau pobl anabl, gyda'r olaf o'r rhain yn gweithredu er mwyn canfod ymgeiswyr anabl arfaethedig. Byddai hyn yn galluogi pobl anabl sydd eisoes yn weithgar yn eu cymunedau neu mewn gwleidyddiaeth ar lawr gwlad neu sy'n ymgyrchu (neu a fyddai'n dymuno bod yn gyfrannog) i symud ymlaen i swyddi lleol a/neu genedlaethol. Byddai ymgeiswyr anabl arfaethedig yn cael cynnig o hyfforddiant mewn sgiliau allweddol fel cyfathrebu, ymdrin ag etholwyr anodd a gweithio

gyda'r cyfryngau. Byddai'r cyfleoedd hyfforddi a datblygiad hyn ar gael ar gyfer bob ymgeisydd ni waith p'un ai cawsent eu henwebu gan sefydliad ai peidio, ac felly byddai angen eu hysbysebu i bob aelod.

Gwella hygyrchedd (at swydd etholedig)

Cynnig 4

Sefydlu Cronfa Mynediad at Swyddi Etholedig fel cynhorthwy i dalu costau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

4.5 Argymhellwyd y syniad o Gronfa er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr anabl arfaethedig yn benodol gan Gynhadledd draws-blaid y Llefarydd, a edrychodd ar wella amrywiaeth o fewn y Senedd. Cawsai'r gronfa ei rheoli gan gorff annibynnol neu sefydliad trydydd sector. Ni fyddai'n cymorthdalu'r gofyn cyfreithiol i bleidiau gwleidyddol wneud newidiadau rhesymol, nac ychwaith yn rhychwantu pethau y disgwylid i ymgeisydd nad yw'n anabl eu hariannu o'u hadnoddau eu hunain neu trwy godi arian mewn dull addas.

Cynnig 5

Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol er mwyn dadansoddi eu polisïau mynediad cyfredol i'r anabl a rhaeadru a hyrwyddo unrhyw arfer da.

Cynnig 6

Hyrwyddo ac esbonio rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i bleidiau gwleidyddol, e.e. datblygu canllaw fer, deunyddiau gwefan a/neu git offer er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a phleidiau gwleidyddol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (gweler Pennod 6).

4.6 Yn ychwanegol i rwystrau ariannol, awgrymodd ein hymarfer cysylltu, yn ogystal, nad yw pleidiau gwleidyddol yn llwyr ymwybodol o'u holl ofynion o dan ddeddfwriaeth i ddarparu newidiadau rhesymol ac ati (gweler Pennod 6 sy'n rhoi amlinell fer o'r gofynion deddfwriaethol hyn). Ar ben hyn, mae'n ymddangos y byddai pleidiau gwleidyddol, er eu bod wedi mabwysiadu'r egwyddorion o gefnogi ymgeiswyr anabl arfaethedig i ennill swyddi etholedig, yn elwa o gefnogaeth ac anogaeth er mwyn sicrhau fod yr egwyddorion wedi'u plannu ar bob lefel o blaid wleidyddol; o'r adran weithredol genedlaethol i bob swyddfa'r blaid leol. Weithiau, gall diffyg cysylltiad fodoli rhwng safbwyntiau pleidiau cenedlaethol ynghylch annog mwy o amrywiaeth a phrofiad pobl anabl ar lefel y blaid leol/ awdurdod lleol.

Pennod 5: Cwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch cynigion

5.1 Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch p'un ai fyddai un neu fwy o'r cynigion hyn yn darparu'r cynhorthwy gorau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig o ystyried y sefyllfa ariannol gyfredol. Rydym wedi cynnwys tri chwestiwn ychwanegol yn ymwneud â Chynnig 4 ble fyddem yn gwerthfawrogi clywed eich barn os ydych yn teimlo mai Cronfa fyddai'r dull mwyaf effeithiol o gynorthwyo ymgeiswyr anabl arfaethedig.

Cwestiynau bras yr ymgynghoriad

- Pa rai o'r dewisiadau hyn neu gyfuniad o ddewisiadau a fyddai, yn eich barn chi, yn cael yr effaith fwyaf?
- A oes unrhyw rwystrau'n bodoli ar gyfer pobl anabl sy'n ymgeisio am swyddi etholedig nad yw'r dewisiadau hyn yn mynd i'r afael â nhw? Os oes, beth ydyn nhw? A sut gellid eu goresgyn?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw waith a wnaethpwyd eisoes y gallai'r dewisiadau hyn adeiladu arno?

Cwestiynau penodol mewn perthynas â phob un o'r tri maes polisi

Newid agweddau

- Beth yw'r dull gorau i ni godi ymwybyddiaeth yn effeithiol er mwyn cyrraedd/cyfathrebu â phobl anabl a sefydliadau?
- Beth ddylai'r swyddogaethau a'r cynhorthwy allweddol fod a ddarparir gan y llysgenhadon hyn?
- Sut allwn ni weithio'n agos â'r cyhoedd a phleidiau gwleidyddol, er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol ynghylch ethol pobl anabl?

Darparu hyfforddiant, datblygiad a chynhorthwy

- Pa sgiliau allweddol sydd eu hangen er mwyn dyfod yn wleidydd lleol neu genedlaethol?
- Beth yw'r dull gorau o ddarparu hyfforddiant a datblygiad a'i wneud yn hawdd i bobl anabl ei gael?
- Pa fathau eraill o gynhorthwy a fyddai'n arbennig o fuddiol i ymgeiswyr anabl arfaethedig ac wedi'u hethol?
- Pa fath o hyfforddiant fyddai'n cynnig y dull mwyaf effeithiol o hyrwyddo'r gallu ymysg Aelodau Seneddol neu gynghorwyr nad ydynt yn anabl i gynorthwyo ymgeiswyr anabl?

Gwella hygyrchedd swyddi etholedig

Mewn perthynas â'r Gronfa Mynediad at Swyddi Etholedig:

- O ystyried bod adnoddau'n gyfyng, pa feini prawf y dylid eu hystyried wrth benderfynu pa ymgeiswyr anabl arfaethedig ddylai elwa o Gronfa?
- Ym mha gam dylai unigolyn fod yn gymwys i dderbyn cynhorthwy o Gronfa?
- Sut allai cronfa gydag arian cyfyngedig roi blaenoriaeth deg i geisiadau o fewn unrhyw flwyddyn?
- Sut allwn ni bennu pa weithgareddau y dylid eu cynnwys ar gyfer cynhorthwy a thros ba gyfnod?
- Sut dylid dosbarthu arian unwaith y cytunwyd y bydd unigolyn yn derbyn cynhorthwy ariannol?
- A oes unrhyw feysydd/mathau o dreuliau na ddylai'r gronfa mo'u rhychwantu?

Mewn perthynas â pholisïau a chyfarwyddyd:

- Pa fathau o bolisïau, canllawiau ac adnoddau cenedlaethol a lleol y dylai pleidiau gwleidyddol roi yn eu lle er mwyn darparu cynhorthwy ymarferol a mynediad i ymgeiswyr anabl?

Pennod 6: Ymrwymiadau cyfreithiol cyfredol pleidiau gwleidyddol tuag at eu hymgeiswyr anabl arfaethedig

6.1 Mae'n rhan hanfodol o ddatblygu'r polisi hwn i roi ystyriaeth i ymrwymiadau cyfreithiol pleidiau gwleidyddol' tuag at ymgeiswyr anabl arfaethedig er mwyn sicrhau na chaiff ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes mo'u dyblygu o fewn y strategaeth newydd.

Ymrwymiadau cyfreithiol: gofynion gorfodol ar gyfer cymdeithasau/ pleidiau gwleidyddol

6.2 Rhaid cymryd y ddyletswydd orfodol i ddarparu newidiadau rhesymol i ystyriaeth wrth ystyried aelodaeth pobl anabl o blaid wleidyddol. Mae'r ddyletswydd hon yn mynnu, ble rhoddir person anabl dan anfantais sylweddol o'i gymhau â rhywun nad yw'n anabl, rhaid i'r gymdeithas gymryd camau rhesymol er mwyn osgoi neu oresgyn yr anfantais honno. Mae'r ddyletswydd hon yn rhagweledol yn ogystal, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i gymdeithasau ystyried a gweithredu mewn perthynas â rhwystrau a allent atal pobl anabl sydd eisiau, er enghraifft, dyfod yn aelod o blaid, rhag mwynhau buddion aelodaeth. Mae hyn yn darparu dull o annog a dylanwadu ar arfer da ble dylai pleidiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol er mwyn goresgyn y rhwystrau sy'n rhwystro/atal cyfranogaeth pobl anabl cyn bod achosion unigol yn dod i'r amlwg.

6.3 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl anabl rhag y mathau canlynol o wahaniaethu:

Gwahaniaethu uniongyrchol

- Mae hyn yn digwydd pan fod person anabl, o ganlyniad i anabledd, yn cael eu trin mewn dull llai ffafriol na rhywun nad yw'n anabl. Hefyd, gwarchodir rhywun nad ydynt yn anabl eu hunain, ble caiff y person hwnnw ei drin yn llai ffafriol oherwydd ystyrir yn anghywir eu bod yn anabl neu mae'r person hwnnw'n gysylltiedig â rhywun anabl, er enghraifft trwy fod yn ofalwr person anabl. Ni ellir fyth cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol.

Gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail anabledd

- Mae hyn yn digwydd ble mae rhywbeth fel rheol, polisi neu arfer yn cael ei gymhwyso i bawb, ond mae'n rhoi pobl anabl dan anfantais arbennig ac ni ellir mo'i "gyfiawnhau'n wrthrychol". Ystyr cyfiawnhad gwrthrychol yw ble dangosir fod y rheol, polisi ac ati dan ystyriaeth yn bodloni amcan cyfreithlon mewn dull teg, cydwys a rhesymol.

Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd

- Mae hyn yn digwydd pan gaiff rhywun ei drin yn anffafriol, oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'u hanabledd, ac ni ellir cyfiawnhau'r driniaeth yn wrthrychol. Er enghraifft, gwahardd rhywun dall, nid oherwydd eu bod yn ddall, ond oherwydd eu bod yn defnyddio ci tywys. Er mwyn i'r math hwn o wahaniaethu ddigwydd yn y cyd-destun hwn, rhaid i'r gymdeithas wybod, neu y gellir disgwyl yn rhesymol eu bod yn gwybod, bod y person yn anabl.

Gwahaniaethu oherwydd methiant i wneud newid rhesymol

- Mae gan gymdeithas ddyletswydd i wneud newid rhesymol ble mae unrhyw reol, arfer ac ati o'r gymdeithas yn rhoi rhywun anabl dan anfantais sylweddol, o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r newid rhesymol yn mynnu fod y gymdeithas yn cymryd camau rhesymol i gael gwared ar yr anfantais sylweddol trwy newid y rheol neu arfer perthnasol ac ati (e.e. diddymu'r rheol sy'n gwahardd anifeiliaid ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio cŵn cymorth); darparu cymorth neu wasanaeth atodol (e.e. rhoi gwybodaeth me wn fformat hygyrch) neu trwy newid nodweddion ffisegol ei heiddo (gall fod angen cael gwared ar y nodwedd, ei newid, neu ddarparu dull rhesymol o'i hosgoi – fel cynnig mynedfa amgen os nad yw'r brif fynedfa'n hygyrch.)

6.4 Mae gan gymdeithas ddyletswydd i beidio â gwahaniaethu (mewn un neu fwy o'r dulliau a ddisgrifir uchod) yn erbyn aelod anabl:

- yn ei dull o ddarparu mynediad, neu o beidio â darparu mynediad ar gyfer yr aelod anabl i unrhyw fuddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarparir gan y gymdeithas;
- trwy amddifadu'r aelod anabl o aelodaeth;
- trwy amrywio amodau aelodaeth yr aelod anabl;
- trwy wneud i'r person anabl ddioddef unrhyw golled arall.

6.5 Dywed Cod Arfer drafft y Ddeddf Cydraddoldeb bod:

- Para 12.27: "'Budd, cyfleuster neu wasanaeth' yn disgrifio'r ystod eang o fanteision materol a heb fod yn faterol a fwynheir gan aelodau cymdeithas…";
- Para 12.28: "Gall 'Amodau aelodaeth' gynnwys ffioedd neu daliadau a godir, hawliau pleidleisio, yr hawl i fod yn ymgeisydd am swydd neu i gynrychioli'r gymdeithas tu allan iddi, amodau ar gyfer defnyddio cyfleusterau neu fod yn gyfrannog mewn digwyddiadau".

6.6 Os yw'n ofynnol i rywun fod yn aelod o blaid wleidyddol cyn y gellir eu hystyried i'w dethol fel ymgeisydd gwleidyddol, yna mae'r gallu i gael eu cynnig neu eu dethol fel ymgeisydd yn fantais faterol o aelodaeth. Mae unrhyw beth sy'n arwain at ymgeisydd anabl yn cael eu gwahardd rhag, neu gael mynediad cyfyngedig yn unig i'r fantais honno mewn perygl o fod yn ymddygiad gwahaniaethol. Yn ogystal, gallai gwahardd rhywun rhag cael eu hystyried i'w dethol fel ymgeisydd oherwydd anabledd, neu oherwydd rhywbeth sy'n deillio o'r anabledd fod, o bosib, yn wahaniaethol.

6.7 Yn yr un modd, byddai plaid wleidyddol mewn perygl o wahaniaethu'n anghyfreithlon os:

- oedd ganddi amodau aelodaeth a oedd yn cau allan pobl anabl rhag gwneud cynnydd yn y gymdeithas, neu a oedd yn achosi i unrhyw gynnydd o'r fath fod yn fwy anodd ei gyflawni nag a fyddai i rywun nad oedd yn anabl;

- oedd yn methu â gwneud unrhyw newidiadau rhesymol a oeddent yn ofynnol er mwyn atal y person anabl rhag cael ei roi dan anfantais sylweddol o'i gymharu â rhywun nad yw'n anabl, wrth iddynt geisio gwneud cynnydd.

6.8 Felly byddai angen i'r gymdeithas ystyried p'un ai yw cymhwysiad yr amodau aelodaeth i rywun anabl yn cyfrif fel:

- gwahaniaethu uniongyrchol;
- gwahaniaethu anuniongyrchol;
- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd.

6.9 Byddai angen, yn ogystal, iddi sicrhau y gwneid newidiadau rhesymol, er enghraifft trwy:

- addasu darpariaeth, maen prawf neu arfer, fel amodau aelodaeth neu'r dull o gymhwyso'r amodau hynny;
- darparu cymorth neu wasanaeth atodol, fel sicrhau fod ffurflenni cais ar gyfer cael eich dethol fel ymgeisydd mewn fformat hygyrch; neu
- newid y fynedfa i ystafell bwyllgor fel y gall aelodau anabl sy'n gwneud cais i fod yn aelodau pwyllgot gael mynediad i i gyfarfodydd/gyfweliadau dethol.

Darpariaethau gwirfoddol/dewisol y gall cymdeithasau/pleidiau gwleidyddol eu mabwysiadu

6.10 Mae gweithredu positif yn wirfoddol a rhaid bodloni nifer o feini prawf cyn y gall pleidiau gwleidyddol ei ddefnyddio (dylech edrych ar adrannau 104 a 158 y Ddeddf Cydraddoldeb), ac ar ben hyn bwriedir rhoi adran 159 ar waith o 6 Ebrill 2011. Mae gweithredu positif yn gysyniad newydd ar gyfer anabledd (nid oedd yn gymwys o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DDA).

6.11 O dan ddarpariaethau yn yr EA (5104), gall plaid neilltuo nifer benodol o leoedd ar gyfer y rheiny sy'n dod o grŵp a dangynrychiolir ar unrhyw restr fer etholiadol a lunnir. Ni all y blaid, ac eithrio wrth lunio rhestrau byr ar gyfer menywod yn unig (S105), neilltuo'r holl leoedd ar gyfer y grŵp gwarchodedig perthnasol. Mae'r Cod Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn rhychwantu'r pynciau hyn.

6.12 Nid yw'n anghyfreithlon i drin rhywun anabl yn fwy ffafriol na rhywun nad yw'n anabl. Ni fydd angen i blaid wleidyddol ddefnyddio gweithredu positif os yw'n cynnig trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, bydd y darpariaethau gweithredu positif newydd yn fwy perthnasol os yw plaid wleidyddol yn dymuno trin pobl ag anabledd penodol yn fwy ffafriol nag eraill sydd â math arall o anabledd (e.e. er mwyn darparu mentora a hyfforddiant ar gyfer pobl ag anhawster dysgu ond cau allan pobl ag anabledd clywed neu er mwyn cynnwys pobl ag anhawster dysgu'n awtomatig ar restr fer ond nid y rheiny ag anabledd clywed).

References

1 Scope, tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd, SC-12.

2 Scope, tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd, SC-12.

3 RADAR, tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd, SC-3.

4 RADAR, tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd, SC-3.

5 RADAR, tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd, SC-3.

6 www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/consultation-guidance

7 Leonard Cheshire Disability, tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd, SC-59.

8 Tystiolaeth RADAR i Gynhadledd y Llefarydd SC-3.

10 Cynhadledd y Llefarydd: Adroddiad Terfynol.

11 Cynhadledd y Llefarydd: Adroddiad Terfynol.

12 Canfyddiadau'r Cyhoedd o Bobl anabl – Tystiolaeth oddi wrth Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain 2009 – cyhoeddwyd 27ain Ionawr 2009.

13 Ar gyfer y dibenion hyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw: oed, anabledd, ailgyfeiriad rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rywiol.

Atodiad A: Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb y Strategaeth Mynediad at Swyddi Etholedig

1. Enw rhaglen, prosiect neu bolisi

Datblygwyd y 'Strategaeth Mynediad at Swyddi Etholedig' fel ymateb i'r ymrwymiad a osodwyd allan yn nogfen glymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol/Ceidwadwyr i "gyflwyno cynhorthwy ychwanegol" ar gyfer pobl anabl er mwyn galluogi gwell mynediad at swyddi etholedig. Nodwyd ystod o ddewisiadau ar gyfer cynorthwyo pobl anabl sy'n dymuno bod yn ymgeiswyr ar gyfer swyddi gwleidyddol etholedig a byddant yn ffurfio sail ymgynghoriad cyhoeddus sydd i fod i gychwyn yn Chwefror 2011.

2. Rhychwant yr asesiad

Rhychwant a ffocws

Mae'r asesiad hwn yn edrych ar y broses a ddefnyddiwyd er mwyn datblygu ystod o ddewisiadau polisi arfaethedig ac effaith debygol y dewisiadau hynny, sydd â'r nod o gynyddu gallu pobl anabl i gynnig am swyddi etholedig ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Amcan yr asesiad yw sicrhau y rhoddir sylw haeddiannol i ddyletswyddau cydraddoldebau (ar hyn o bryd, y ddyletswydd hil, y ddyletswydd ryw a'r ddyletswydd anabledd, y disgwylir iddynt gael eu cyfuno'n Ddyletswydd Cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus a'u hymestyn er mwyn iddynt gynnwys oed, ailgyfeiriad rhyw, crefydd neu gred a thueddfryd rhywiol, yn Ebrill 2011) trwy ystyried effaith y dewisiadau polisi a arfaethir a hefyd sut cafodd y dewisiadau polisi eu datblygu a sut maent yn cael eu datblygu, mewn perthynas â chydraddoldeb. Yn arbennig, mae'n hollbwysig fod ystod eang o bobl anabl, sefydliadau anabledd, pleidiau gwleidyddol a chyfranddalwyr eraill yn gallu cyfrannu at yr ymgynghoriad a'n bod yn symud tu hwnt i'r ymgynghoriad tuag at gyd-gynhyrchu er mwyn sicrhau y gweithir yn agos gyda phobl anabl ar lefel strategol.

Yn ogystal, mae'r asesiad yn ceisio sicrhau fod y cynigion polisi, a ddatblygwyd er mwyn gwireddu ymrwymiad y glymblaid, yn cael effaith bositif ar amrediad mor eang ac amrywiol â phosib o bobl anabl ag sy'n ymarferol ac yn gymesur ag adnoddau sydd ar gael.

Pwrpas

Gwnaeth Rhaglen y Glymblaid ymrwymiad i fynd i'r afael â rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth ddyfod yn swyddogion etholedig.

Rhoddodd y strategaeth ystyriaeth lawn i nifer o bynciau: fel y disgrifir yn Rhagair y Gweinidog y ddogfen ymgynghori.

Pwrpas y strategaeth hon yw darparu cynhorthwy ymarferol er mwyn goresgyn nifer o rwystrau, rhai ariannol a rhai ehangach, a nodwyd fel rhan o Gynhadledd y Llefarydd ac mewn cyflwyniadau a dderbyniwyd yn dilyn proses anffurfiol o gysylltu â sefydliadau anabledd, BANE a menywod gwahanol a gynhaliwyd yn ystod haf 2010.

Nodau

Nod y strategaeth, fel y gosodir allan yn Adran 2.2 uchod, yw gwrthdroi tangynrychiolaeth pobl anabl mewn bywyd gwleidyddol lleol a chenedlaethol sy'n cael effaith wirioneddol ac andwyol ar ansawdd y dull o ddod i benderfyniadau.

Canlyniadau

Gellir cyflawni ystod o ganlyniadau, fel y disgrifir uchod ym Mhenodau 3 a 4, trwy ddarparu cynhorthwy ychwanegol yn y meysydd canlynol:

- Newid agweddau.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chynhorthwy.
- Gwella hygyrchedd.

Cyd-fynd ag amcanion ehangach y Llywodraeth

Amcanion y Llywodraeth

Byddwn yn sicrhau fod y strategaeth Mynediad at Swyddi Etholedig yn cydweddu'n agos ag ysbryd a phwrpas y Ddeddf Cydraddoldeb a chyflwyniad darpariaethau gweithredu positif ehangach.

Mae'r strategaeth hon yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y Glymblaid i "weithredoedd cydunol ar ran y llywodraeth i ddymchwel rhwystrau i symudedd cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal a helpu i adeiladu cymdeithas sy'n fwy teg". Mae hefyd yn cefnogi ymrwymiad Cynllun Diwygio Strwythurol Swyddfa'r Cabinet i "wneud ein system wleidyddol yn fwy eglur ac atebol", a blaenoriaeth cynllun Diwygio Strwythurol y Swyddfa dros Faterion Anabledd " i wireddu cydraddoldeb ar gyfer yr anabl".

3. Ffynonellau tystiolaeth

Casgliadau ac argymhellion Cynhadledd y Llefarydd ynghylch Cynrychiolaeth Seneddol a gyhoeddwyd yn Ionawr 2010, a seiliwyd ar dystiolaeth a gyflwynwyd gan bleidiau gwleidyddol a sefydliadau anabledd.

http://www.publications.parliament.uk/pa/spconf/spconf.htm

Cysylltu'n anffurfiol â chyfranddalwyr yn ystod haf 2010 a oedd yn cynnwys llythyron Gweinidogaethol i Gadeiryddion pleidiau gwleidyddol ac Equality 2025 a holiadur a anfonwyd i sefydliadau anabledd, BAME a menywod allweddol.

4. Datblygu'r strategaeth a'r effaith ar gydraddoldeb

Yn dilyn yr ymrwymiad a osodwyd allan yn nogfen glymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr i "gyflwyno cynhorthwy ychwanegol ar gyfer pobl gydag anableddau", sefydlwyd grŵp llywio traws-Lywodraeth gan gynnwys cynrychiolaeth oddi wrth Equality 2025 (grŵp ymgynghorol swyddogol lefel uchel y Llywodraeth o bobl anabl sy'n cynnig cyngor strategol ynghylch datblygu polisi) er mwyn edrych ar ddewisiadau polisi er mwyn dwyn yr ymrwymiad hwn yn ei flaen.

Cynhaliwyd ymarfer cysylltu anffurfiol, fel y disgrifir yn adran 2.4 uchod, dros haf 2010. Mae'r ymatebion o'r ymarfer hwnnw, ynghyd â thystiolaeth a oedd yn bodoli eisoes oddi wrth Gynhadledd y Llefarydd, wedi helpu i ffurfio sail i strwythur a chynnwys yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn ac ystod o gynigion polisi fel y gosodir allan ym Mhennod 4.

Bwriad yr ymgynghoriad cyhoeddus yw ymofyn am farnau ynghylch y cynigion polisi o amrediad amrywiol o bobl fel y disgrifir yn adran 1.2 uchod. Fel rhan o'n strategaeth cyd-gynhyrchu, byddwn yn cynnal cyfres o gyfarfodydd a sesiynau trafod ble gellir yn edrych yn fanylach ar brofiadau pobl anabl eu hunain, gan gydnabod, drwy hyn, amrywiaeth y profiad o fewn y boblogaeth anabl.

5. Cynigion polisi a'r effaith ar gydraddoldeb

Manylir isod y cynigion polisi arfaethedig i'w cynnwys yn y strategaeth Mynediad at Swyddi Etholedig, ynghyd ag asesiad o unrhyw effaith andwyol neu bositif ar gydraddoldeb.

Newid agweddau (ymysg pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd)

- Dylai'r Llywodraeth weithio'n agosach â phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a sefydliadau anabledd er mwyn datblygu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth wedi'i ffocysu er mwyn sicrhau fod gan bobl anabl gyfle cyfartal i fywyd gwleidyddol ar gael iddynt.
- Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol, yr LGA a sefydliadau pobl anabl er mwyn datblygu rhaglen llysgenhadon trawsbleidiol o Aelodau Seneddol a chynghorwyr anabl cyfredol, gan gynnwys rhai annibynnol.

Effaith ar gydraddoldeb: Rhagwelwn byddai gweithgarwch codi ymwybyddiaeth yn sicrhau fod pobl anabl mewn pob rhan o gymdeithas ac mewn grwpiau eraill a dangynrychiolir fel BAME, pobl hŷn (o ystyried y cysylltiad, mewn rhai achosion, rhwng oedran ac anabledd) a menywod yn gwybod am gyfleoedd i ymgeisio am swyddi etholedig. Byddai'r gweithgarwch hwn hefyd yn hyrwyddo'r angen yn ehangach am fwy o gydraddoldeb o ran cynrychiolaeth gan bobl anabl gydag amhariadau gwahanol.

Rhagwelwn byddau defnyddio Aelodau Seneddol/Cynghorwyr anabl cyfredol i rannu eu profiadau ymysg ymgeiswyr posibl a'r cyhoedd ehangach yn fecanwaith, yn ogystal er mwyn gwella dealltwriaeth o, a mynediad i'r dewisiadau polisi a'r cynhorthwy gwahanol sydd ar gael.

Un o beryglon allweddol y dewisiadau hyn yw ei bod yn bosibl na fyddwn yn cyrraedd yr holl bobl sydd angen i ni eu cyrraedd. Byddem yn lliniaru'r perygl hwn trwy barhau i weithio'n agos â'r ystod eang o sefydliadau – pleidiau gwleidyddol, sefydliadau anabledd a sefydliadau gyda diddordeb mewn meysydd eraill o fewn cydraddoldeb fel BAME a grwpiau menywod – yr ydym eisoes wedi cysylltu â nhw trwy gyfrwng yr ymarfer cysylltu yn yr haf.

Sylweddolwn gall rhwystrau ychwanegol fodoli ar gyfer llawer o grwpiau a dangynrychiolir, er enghraifft rhwystrau iaith yn achos rhai cymunedau BAME neu rwystrau cyrchu gwybodaeth ar gyfer pobl anabl ag amhariadau penodol. Byddai GEO yn sicrhau fod pleidiau gwleidyddol, LGA, sefydliadau anabledd ac ati yn gwybod am fuddion a gofynion cyfreithiol cynhyrchu cyhoeddiadau mewn fformatau hygyrch.

Dengys ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa dros Faterion Anabledd12 fod pobl yn fwy cysurus yn rhyngweithio â phobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyrol nag â phobl ag anawsterau dysgu neu gyflwr iechyd meddwl. Mae pobl hefyd yn llai tebygol o lawer o fod yn gysurus â rhywun ag anhawster dysgu neu gyflwr iechyd meddwl sydd mewn swydd ag iddi awdurdod fel eu Haelod Seneddol lleol neu eu pennaeth.

Byddem yn ystyried y dystiolaeth hon ar y cyd â chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn helpu i benderfynu p'un ai oes angen gweithgarwch wedi'i dargedu er mwyn helpu i gynyddu'r gyfran o bobl anabl gydag amhariadau penodol e.e. cyflyrau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, yn gwneud swyddi etholedig.

Er mwyn sicrhau fod ystod eang o Aelodau Seneddol/Cynghorwyr anabl yn gyfrannog yn y rhaglen llysgenhadon, byddem yn datblygu rhagfanyleb rôl a ddiffiniwyd yn llym, sydd, serch hynny, yn galluogi hyblygrwydd o ran beth mae swyddogion etholedig yn dymuno'i wneud er mwyn apelio at ystod eang o bobl. Byddai hyn yn hyrwyddo'r buddion o fod yn gyfrannog mewn rhaglen draws-blaid o lysgenhadon, a byddem yn defnyddio pleidiau gwleidyddol eu hunain er mwyn annog eu haelodau i fod yn gyfrannog, yn ogystal â nifer fach o hyrwyddwyr proffil uchel i hybu'r cynllun i'w cymheiriaid.

Disgwyliwn, ar gyfer pob grŵp a dangynrychiolir, y byddai hybu hanesion positif am lwyddiant ac astudiaethau achos sy'n ffocysu ar bobl anabl sydd wedi ennill swyddi etholedig, yn rhoi mwy o hyder o bobl o ystod eang o gefndiroedd a phrofiadau i ystyried ymgeisio am swydd etholedig. Yn ogystal, dylai newid canfyddiadau'r cyhoedd olygu, ble mae pleidiau gwleidyddol yn gwneud cynnydd araf tuag at annog pobl anabl i gynnig eu hunain, bod dinasyddion yn fwy tebygol o gwestiynu'r diffyg amrywiaeth hwn a mynnu'r cyfle i ddylanwadu ar a llunio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd.

Darparu hyfforddiant, datblygiad a chynhorthwy

- Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u hanelu at gynorthwyo pobl anabl ar hyd y llwybr i gyfranogaeth wleidyddol.

Effaith ar gydraddoldeb: Trwy fanteisio ar y darpariaethau gweithredu positif ble bo'n addas er mwyn darparu ystod o weithgareddau hyfforddi a datblygu, byddai hyn yn gwneud cyfraniad positif o ran mynd i'r afael â'r lefelau cyfredol anghyfartal o isel o bobl anabl mewn swyddi etholedig.

Er mwyn sicrhau fod hyfforddiant yn effeithiol ac yn hygyrch i ystod mor eang â phosib o bobl anabl, byddem yn datblygu gwahoddiad i gynnig wedi'i ddiffinio'n llym i ddarparu'r hyfforddiant trwy weithio gyda sefydliadau anabledd arbenigol a phobl anabl eu hunain er mwyn llunio manyleb sy'n cynnwys meini prawf hygyrchedd, monitro a gwerthuso clir mewn cam cynnar. Byddem yn sicrhau nad yw meini prawf cymhwyster ar gyfer cyfleoedd hyfforddi'n wahaniaethol, eto trwy weithio gydag ystod eang o sefydliadau gyda diddordeb mewn meysydd eraill o fewn cydraddoldeb gan gynnwys rhwydweithiau menywod, sefydliadau anabledd, grwpiau LGBaT a grwpiau BAME. Byddem hefyd yn sicrhau ein bod yn trefnu fod cyllid ar gael ar gyfer y cynrychiolwyr hynny sydd angen cynhorthwy ariannol er mwyn i bobl dan anfantais ariannol beidio ag wynebu rhwystrau ychwanegol.

Wrth hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, byddem yn sicrhau y hybir hyn trwy ystod eang o lwybrau a rhwydweithiau, ar-lein ac mewn cyfryngau argraffedig, eto trwy ddefnyddio ystod eang o sefydliadau gyda diddordeb mewn meysydd eraill o fewn cydraddoldeb fel y rheiny a amlinellir uchod.

Gwella hygyrchedd

- Sefydlu Cronfa Mynediad at Swyddi Etholedig wedi'i rheoli gan gorff annibynnol neu sefydliad trydydd sector er mwyn ariannu cynhorthwy yng nghyswllt anabledd a chostau sy'n gysylltiedig ag anabledd sy'n dod tu allan i ymrwymiadau cyfreithiol pleidiau gwleidyddol.
- Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol er mwyn dadansoddi eu polisïau hygyrchedd cyfredol i'r anabl a rhaeadru a hyrwyddo unrhyw arfer da.
- Hyrwyddo ac esbonio ymrwymiadau cyfreithiol sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol, e.e. datblygu canllaw fer, deunyddiau gwefan a/neu git offer fel cynhorthwy i awdurdodau lleol a phleidiau gwleidyddol gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Effaith ar Gydraddoldeb: Byddai darparu cynhorthwy ariannol er mwyn lliniaru unrhyw gostau ymgyrchu ychwanegol (sy'n deillio o ganlyniad i amhariad rhywun) o fudd uniongyrchol i ymgeiswyr anabl trwy gael gwared ar rwystrau cost a thrwy hyn byddai'n mynd i'r afael â'r pwnc o dangynrychiolaeth y grŵp hwn.

Mae perygl yn gysylltiedig â pholisi'r Gronfa y gallai grwpiau eraill a dangynrychiolir weld hyn fel rhywbeth gwahaniaethol os na chânt hwy gynhorthwy ariannol. Fodd bynnag, byddem yn dadlau'n frwd fod pobl anabl yn wynebu mwy o rwystrau ariannol na'r grwpiau hyn, ac oherwydd hynny, ymgais yw hwn i ddarparu maes chwarae mwy gwastad, yn hytrach na rhoi mantais iddynt dros grwpiau eraill a dangynrychiolir.

Mae'n debygol dros ben y byddai swm penodol o arian na fyddai'n ddigon i fodloni pob cais am gymorth ariannol, felly, wrth ddatblygu'r gronfa byddai'n hanfodol i feddu ar feini prawf teg ac eglur yr asesir ymgeiswyr arfaethedig yn eu herbyn er mwyn medru blaenoriaethu ceisiadau mewn dull teg. Er mwyn datblygu'r meini prawf hyn byddem yn gweithio gyda sefydliadau anabledd arbenigol a phobl anabl eu hunain er mwyn llunio manyleb sy'n cynnwys meini prawf clir am hygyrchedd, monitro a gwerthuso mewn cam cynnar.

Byddem yn sicrhau nad yw meini prawf cymhwyso'n gwahaniaethu, eto trwy weithio gydag ystod eang o sefydliadau gyda diddordeb mewn meysydd eraill o fewn cydraddoldeb gan gynnwys rhwydweithiau menywod, sefydliadau anabledd, grwpiau LGBaT a grwpiau BAME. Wrth ddatblygu'r cynnig am y gronfa, byddai'n hanfodol i sicrhau nad yw'n dyblygu cyllido sy'n bodoli eisoes a/neu ddarpariaethau fel Mynediad at Waith, newidiadau rhesymol y mae eisoes yn ofynnol bod pleidiau gwleidyddol yn eu rhoi ar waith. Byddem yn sicrhau fod y cynnig yn cyfannu yn hytrach na'n dyblygu darpariaethau.

Er mwyn sicrhau fod pleidiau gwleidyddol yn llwyr gyfrannog ac yn agored i rannu eu polisïau hygyrchedd i'r anabl, byddem yn gweithio gyda nhw o gam cynnar a thrwy gydol yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau eu bod yn deal y cymhellion a'r nodau y bwriedwyd fod y cynigion polisi hyn yn eu cyflawni. Yn ogystal, gallem ddefnyddio aelodau proffil uchel o bleidiau penodol er mwyn annog rhannau eraill o'r blaid i fod yn gyfrannog a hyrwyddo'r polisi i'w cymheiriaid. Byddem hefyd yn cynnwys pobl anabl eu hunain yn ogystal â grwpiau eraill a dangynrychiolir wrth asesu cynlluniau cyfredol a rhannu arfer da.

Byddai'r dewisiadau polisi a fanylir uchod hefyd yn cael effaith bositif ar grwpiau eraill a dangynrychiolir gan gynnwys BAME a menywod, gan adlewyrchu drwy hyn sut mae materion anabledd yn cydgysylltu â'i gilydd. Cyflawnid hyn trwy'r ymgynghoriad ac yn dilyn gweithredu'r polisïau trwy sicrhau fod y grwpiau hyn yn llwyr gyfrannog yn y broses.

6. Crynodeb o'r asesiad

Gan grynhoi'r casgliadau a dynnir o'r asesiad hwn a gosod allan unrhyw effeithiau andwyol a nodwyd.

Ni ragwelir bydd gan y strategaeth y gallu i achosi unrhyw effaith andwyol ar gydraddoldeb mewn perthynas ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig[13]. Mae'n debygol y cawsai'r dewisiadau polisi a amlinellir yn y strategaeth, effaith bositif, mewn gwirionedd, ar raddfa ehangach na phobl anabl ar eu pennau eu hunain, fel bydd unigolion eraill a dangynrychiolir (yn arbennig BAME a menywod) sydd ag anabledd yn ogystal yn elwa o'r darpariaethau hyn.

7. Monitro, arolygu a pharhau i weithio'n agos â chyfranddalwyr

O safbwynt cyfrif y niferoedd o bobl anabl mewn swyddi etholedig, mae dwy ffynhonnell bosib o dystiolaeth. Mae Tîm Dadansoddi ac Ymchwilio Llywodraeth Leol (LGAR) yn cyhoeddi adroddiad bob dwy flynedd ynghylch cynghorwyr lleol, sy'n cynnwys data amrywiaeth ynghylch rhyw, ethnigedd ac anabledd.

Yn ogystal, byddai adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb (unwaith y caiff ei rhoi ar waith) yn ei gwneud yn bosibl i fynnu bod pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn cyhoeddi data a wnaethpwyd yn anhysbys mewn perthynas ag amrywiaeth yr ymgeiswyr a ddetholwyd ganddynt mewn etholiad penodol. Byddai'r gofyn hwn yn galluogi i ddata ynghylch y nifer o bobl anabl mewn swyddi etholedig gael ei gasglu mewn dull trefnus ar lefel genedlaethol.

Datblygir mecanweithiau monitro a gwerthuso ar gyfer bob dewis polisi:

- er mwyn galluogi lefelau o ddefnyddio i gael eu monitro, yn arbennig mewn perthynas â meysydd fel y Gronfa ac yn fwy cyffredinol, mentora/ cymorth bydi ac ati;
- asesu llwyddiant y canlyniadau penodedig;
- ymofyn am ac asesu adborth oddi wrth unigolion a sefydliadau.

Nodiadau

Atodiad B: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Mynediad at swyddi etholedig

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 11 Mai 2011. Anfonwch eich ymateb i ni, os gwelwch yn dda, erbyn y dyddiad hwnnw. Pan fyddwch yn ymateb, byddai o gymorth pe medrech ddarparu'r wybodaeth ganlynol.

Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad, neu enw a chyfeiriad eich sefydliad os yw'n berthnasol. Gallwch beidio â rhoi'r wybodaeth hon os mynnwch, ond ni fyddwn yn gallu ychwanegu eich manylion i'n cronfa ddata ar gyfer ymarferion ymgynghori yn y dyfodol.

Manylion cysylltu

Darparwch fanylion y sawl sydd wedi cwblhau'r ymateb hwn.

Cwblhawyd yr ymateb gan (enw):

Swydd yn y sefydliad (os bo'n addas):

Enw'r sefydliad (os bo'n addas):

Cyfeiriad:

Rhif ffôn er mwyn cysylltu:

Cyfeiriad e-bost er mwyn cysylltu:

Dyddiad: / /

Cyfrinachedd

O dan y Cod Arfer ar Lywodraeth Agored, trefnir i unrhyw ymateb fod ar gael i'r cyhoedd os gofynnir amdano, oni bai fod ymatebwyr yn datgan eu bod yn dymuno i'w barnau gael eu cadw'n gyfrinachol. Os ydych chi'n dymuno i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch isod a dweud pam. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Nid ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, fel rhywbeth sy'n rhwymo'r Adran.

Hoffwn i'm hymateb gael ei gadw'n gyfrinachol (rhowch groes yn y blwch os bo'n addas): ☐

Dywedwch pam, os gwelwch yn dda

Ar ran pwy ydych chi'n ymateb (rhowch groes yn y blwch perthnasol)?

Fel unigolyn ☐

Ar ran sefydliad sector cyhoeddus ☐

Ar ran sefydliad sector preifat ☐

Ar ran sefydliad sector gwirfoddol ☐

Arall (manylwch) ☐

Nodyn

- Yn ogystal â'r ffurflen wedi'i chwblhau, gallwch anfon gwybodaeth atodol arall os dymunwch.

Cwestiynau cyffredinol

Cwestiwn 1: Pa un o'r cynigion hyn neu gyfuniad o gynigion ydych chi'n credu byddai'n cael yr effaith fwyaf?

Cwestiwn 2: Oes yna unrhyw rwystrau i bobl anabl ymgeisio am swyddi etholedig nad ymdrinnir â nhw gan y cynigion hyn? Os oes, beth ydynt? A sut ellid eu goresgyn?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n gwybod am unrhyw waith sy'n bodoli eisoes y gallai'r cynigion hyn adeiladu arno?

Newid agweddau

Cynnig 1

Dylai'r Llywodraeth weithio'n agosach gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a sefydliadau anabledd er mwyn datblygu dull wedi'i ffocysu o godi ymwybyddiaeth.

Cynnig 2

Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a sefydliadau anabledd er mwyn datblygu rhaglen llysgenhadon traws-blaid.

Cwestiwn 4: Beth yw'r dull gorau i ni godi ymwybyddiaeth yn effeithiol er mwyn cyrraedd/cyfathrebu â phobl anabl a sefydliadau anabledd?

Cwestiwn 5: Beth ddylai'r swyddogaethau a chynhorthwy allweddol fod a ddarparir gan y llysgenhadon?

Cwestiwn 6: Sut fedrwn ni weithio'n agos gyda'r cyhoedd a phleidiau gwleidyddol, er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol ynghlwm wrth ethol pobl anabl?

Darparu hyfforddiant, datblygiad a chynhorthwy

Cynnig 3

Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u hanelu at gynorthwyo pobl anabl ar hyd y llwybr i gyfranogaeth wleidyddol.

Cwestiwn 7: Pa sgiliau allweddol sy'n angenrheidiol er mwyn dyfod yn wleidydd lleol neu genedlaethol?

Cwestiwn 8: Beth yw'r dull gorau o ddarparu hyfforddiant a datblygiad a'i wneud yn hygyrch i bobl anabl?

Cwestiwn 9: Pa fathau eraill o gynhorthwy fyddai'n arbennig o fuddiol i ymgeiswyr anabl arfaethedig ac etholedig?

Cwestiwn 10: Pa fath o hyfforddiant fyddai'n cynnig y dull mwyaf effeithiol o hyrwyddo'r gallu ymysg Aelodau Seneddol neu gynghorwyr nad ydynt yn anabl i gynorthwyo ymgeiswyr anabl?

Gwella mynediad at swyddi etholedig

Cynnig 4

Sefydlu Cronfa Mynediad at Swyddi Etholedig er mwyn darparu cynhorthwy ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Cynnig 5

Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol er mwyn dadansoddi eu polisïau hygyrchedd anabledd a rhaeadru a hyrwyddo unrhyw arfer da.

Cynnig 6

Hyrwyddo ac esbonio ymrwymiadau cyfreithiol sy'n berthnasol i bleidiau gwleidyddol, e.e. datblygu canllaw fer, deunyddiau gwefan a/neu git offer er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a phleidiau gwleidyddol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldebau (gweler Pennod 6).

Cronfa Mynediad at Swyddi Etholedig

Cwestiwn 11: O ystyried bod adnoddau'n gyfyngedig, pa feini prawf dylid eu hystyried wrth benderfynu pa ymgeiswyr anabl arfaethedig ddylent elwa o gronfa?

Cwestiwn 12: Ym mha gam dylai unigolyn fod yn gymwys i dderbyn cynhorthwy o gronfa?

Cwestiwn 13: Sut medrai cronfa gydag arian cyfyngedig flaenoriaethu ceisiadau'n deg o fewn unrhyw flwyddyn?

Cwestiwn 14: Sut gallwn ni bennu pa weithgareddau dylid eu cynnwys i dderbyn cynhorthwy a thros ba gyfnod?

Cwestiwn 15: Sut dylid dosbarthu'r arian hwn unwaith y cytunwyd bydd unigolyn yn derbyn cynhorthwy?

Cwestiwn 16: A oes unrhyw feysydd/fathau o dreuliau na ddylai'r gronfa mo'u cynnwys?

Polisïau a chyfarwyddyd

Cwestiwn 17: Pa fathau o bolisïau, cyfarwyddiadau ac adnoddau cenedlaethol a lleol y dylai pleidiau gwleidyddol roi yn eu lle er mwyn darparu cynhorthwy a hygyrchedd ymarferol ar gyfer ymgeiswyr anabl?

Gwybodaeth ychwanegol

Cwestiwn 18: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cynnig mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn na rychwantwyd mohonynt eisoes gan y ffurflen hon? Os oes, esboniwch os gwelwch yn dda.

Rhowch groes yn y blwch perthnasol

Oes ☐ Nac oes ☐

Sylwadau

Diolch i chi am gwblhau'r ffurflen ymateb hon.

Dylech anfon ymatebion trwy e-bost i: **accesstoelectedoffice@geo.gsi.gov.uk**

neu drwy'r post i:

Access to Elected Office for Disabled People:
Consultation Responses,
Government Equalities Office,
Zone G9,
9th Floor,
Eland House,
Bressenden Place,
London SW1E 5DU.

Government
Equalities Office

Putting equality at the heart of government

Am gopïau pellach o'r ddogfen hon neu er mwyn dysgu mwy am sut mae'r llywodraeth yn gwneud cynnydd gyda'r ymrwymiadau hyn, ymwelwch, os gwelwch yn dda, â gwefan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn www.equalities.gov.uk

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat amgen, cysylltwch â ni yn:

Government Equalities Office,
9th Floor, Eland House,
Bressenden Place,
London SW1E 5DU.
Teleffon: 0303 444 1204
E-bost: accesstoelectedoffice@geo.gsi.gov.uk